Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2026 - 2030

Estyn: Dros ddysgwyr, dros Gymru
Ein gweledigaeth yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant, a deilliannau ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru.

Datganiad Gweledigaeth:
“Byddwn ni’n cyfathrebu’n glir, yn ymgysylltu’n ystyrlon, ac yn cydweithio â phartneriaid i gefnogi gwelliant ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru.”

1. Crynodeb Gweithredol:
Mae’r strategaeth hon yn amlinellu sut byddwn ni’n defnyddio cyfathrebu ac ymgysylltu i:
- Feithrin ymddiriedaeth ac ennyn hyder yn ein gwaith
- Gwella dealltwriaeth o arolygu a gwelliant
- Cryfhau ymgysylltu dwy ffordd â phartneriaid
- Cefnogi gwelliant ar draws y system ar gyfer dysgwyr yng Nghymru

Bydd ein hymagwedd yn cael ei harwain gan fewnwelediad a thystiolaeth, yn canolbwyntio ar bartneriaid ac yn gydweithredol.

Mae ein rôl yn ei gwneud yn ofynnol i ni nid yn unig adrodd ar ansawdd ond hefyd i:
- Esbonio canfyddiadau’n glir
- Ymgysylltu â phartneriaid yn ystyrlon
- Cefnogi gwelliant trwy fewnwelediad a chyfathrebu

2. Amcanion Strategol:

I. Meithrin dealltwriaeth

Sicrhau bod pob partner yn deall yn glir:
- Ein rôl a’n diben
- Sut mae arolygu’n gweithio
- Beth mae ein canfyddiadau yn ei olygu yn ymarferol

II. Cryfhau Ymddiriedaeth a Hygrededd
- Cyfathrebu’n agored ac yn dryloyw
- Esbonio penderfyniadau a chanfyddiadau yn glir
- Dangos effaith a gwerth

III. Galluogi Ymgysylltu Ystyrlon
- Creu cyfleoedd strwythuredig ar gyfer deialog

- Mynd ati i wrando ac ymateb i adborth partneriaid
- Ehangu ymgysylltu y tu hwnt i uwch arweinwyr

IV. Cefnogi Gwella Systemau

- Rhannu arfer orau a mewnwelediad
- Troi tystiolaeth yn gynnwys defnyddiadwy
- Dylanwadu ar arfer trwy gyfathrebu targedig

3. Ein Partneriaid:

Byddwn yn arddel ymagwedd sy'n rhoi'r gynulleidfa yn gyntaf, gan gydnabod gwahanol anghenion a sicrhau bod lleisiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt yn cael eu targedu.

Grwpiau partneriaid craidd

- Dysgwyr
- Rhieni a gofalwyr
- Ymarferwyr (athrawon, staff cymorth)
- Arweinwyr canol
- Uwch arweinwyr
- Awdurdodau lleol ac arweinwyr systemau
- Llunwyr polisi

4. Egwyddorion Ymgysylltu:

Bydd ein hymagwedd:

- Yn canolbwyntio ar y dysgwr – bob amser yn gysylltiedig â'r effaith ar ddysgwyr
- Yn glir ac yn hygyrch – Cymraeg Clir a plain English
- Yn dryloyw – yn agored ac yn seiliedig ar dystiolaeth
- Yn gydweithredol – yn gweithio gyda phartneriaid, nid yn cyhoeddi iddynt
- Yn gynhwysol – dwyieithog a chynrychioliadol
- Yn ymatebol – yn gweithredu ar adborth

5. Meysydd ffocws allweddol:

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth, sef:

- Gyrru adolygu a datblygu'r fframwaith arolygu, sy'n cael eu harwain gan fewnwelediad, ar draws pob sector trwy adolygiad canol cylch a chynigion sy'n cael eu llywio gan adborth ac ymgynghoriad ar gyfer gweithredu yn 2030.
- Codi ymwybyddiaeth o'n ffocws manylach ar ddarllen a gyrru gwelliant mewn safonau darllen trwy arolygu, meithrin gallu a gweithgarwch cyfathrebu.
- Cynyddu ymgysylltiad ag arweinwyr canol ac ymarferwyr i godi ymwybyddiaeth am waith Estyn, gwella dealltwriaeth o arolygu, a gyrru'r defnydd o'n hadnoddau gwella.

6. Ein Model Ymgysylltu:

Mae'n bwysig fod ein partneriaid yn ymddiried yn ein gwaith ac yn gweld ei fod yn dryloyw. Dyna pam

rydym yn defnyddio ystod eang o sianelau cyfathrebu i hysbysu partneriaid a'u cynnwys, yn ogystal â chydweithio â nhw, a dylanwadu i yrru gwelliant yn y system.

Byddwn yn mabwysiadu model pedwar cam, sef:

HYSBYSU	• Adroddiadau arolygu • Adroddiad Blynyddol PAEF • Adroddiadau thematig cenedlaethol • Cynnwys y wefan • Diweddariadau ar gyfryngau cymdeithasol • Cylchlythyr Datgan • Cynllun blynyddol ac adroddiadau blynyddol a chyfrifon	Diweddariadau gwybodaeth sy'n glir, yn hygyrch, ac yn amserol
CYNNWYS	• Holiaduron cyn-arolygiad ac ôl-arolygiad • Arolygon cyn-arolygiad ar gyfer gwasanaethau addysg Llywodraeth leol • Cyfarfodydd gyda rhieni, llywodraethwyr, staff ac arweinwyr • Pwyllgorau rheoli ar gyfer UCDau • Deialog broffesiynol gyda darparwyr i greu darlun cenedlaethol o gryfderau a gwendidau • Hyfforddiant blynyddol i arolygwyr cymheiriaid (caiff tua 1000 eu hyfforddi'n flynyddol i gefnogi arolygu) • Ein gwaith gydag uwch arweinwyr fel enwebeion mewn arolygiadau • Arolwg canfyddiadau blynyddol	Casglu mewnwelediad ac adborth

	• Ymgynghoriadau ar y Fframwaith • Fforymau partneriaid a grwpiau cyfeirio • Cymuned rhieni a gofalwyr • Arolygon adborth ar gyfathrebu • Gweminarau byw Estyn yn ymdrin ag amrywiaeth o destunau allweddol • Ymgyrchoedd cyfathrebu	
CYDWEITHIO	• Grwpiau cyfeirio partneriaid • Ymgorffori adborth wrth gynllunio ein fframweithiau a'n harweiniad • Cyd-greu adnoddau gwella, e.e. podlediadau, digwyddiadau Estyn yn Fyw • Ymgysylltu'n rheolaidd ag Arolygiaethau'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon a gydag arolygwyr addysg cenedlaethol a rhanbarthol yn Ewrop sy'n aelodau o'r Gynhadledd Ryngwladol Sefydlog o Arolygiaethau (SICI)	Perchnogaeth ar y cyd a datblygu ar y cyd
DYLANWADU	• Cymryd rhan mewn digwyddiadau a chynadleddau allanol • Ymgyrchoedd yn gyrru blaenoriaethau	Cefnogi newidiadau mewn arfer

	allweddol • Rhannu arfer effeithiol • Adroddiadau thematig ac argymhellion • Cynrychiolaeth o Estyn mewn grwpiau a phwyllgorau llywio • Rhannu gwybodaeth gyda Gwasanaethau Gwella Ysgolion ac Awdurdodau Lleol • Cefnogi darparwyr yn y broses wella trwy drafodaethau yn ystod arolygu ac ymweliadau interim • Arolygwyr Cyswllt dynodedig yn ymweld â phob darparwr addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith yn flynyddol. • Arolygwyr Cyswllt Awdurdodau Lleol (ACALl) yn monitro a herio awdurdodau lleol am berfformiad a chynnydd eu hysgolion a'u gwasanaethau addysg. • Mae ein Rhaglen Datblygu Arweinwyr Ethnig Lleiafrifol yn cefnogi datblygiad arweinwyr nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt mewn addysg.	

7. Pileri Strategol

- Cyfathrebu Tryloyw a Dibynadwy
- Cyhoeddi adroddiadau clir a hygyrch sy'n benodol i'r gynulleidfa
- Darparu negeseuon cyson ar draws pob sianel

- Cyfathrebu Targedig â Phartneriaid
- Cyfathrebu mewn segmentau yn ôl grŵp partner
- Teilwra tôn, fformat a chynnwys
- Datblygu cylchlythyrau a ffrydiau cynnwys targedig
- Ymgysylltu â Systemau
- Adeiladu ar grwpiau cyfeirio partneriaid sefydledig
- Cynnwys partneriaid yn gynnar yn y datblygu
- Cryfhau perthnasoedd ar draws y system
- Ymgyrchoedd wedi'u harwain gan fewnwelediad
- Cyflwyno 2–3 ymgyrch flaenoriaeth yn flynyddol
- Canolbwyntio ar feysydd gwella allweddol (e.e. darllen, ymweliadau interim, deallusrwydd artiffisial (AI), cefnogi arweinwyr canol)
- Defnyddio data a mewnwelediad i lunio negeseuon

8. Sianelau ac Ymagwedd

Sianelau craidd

- Gwefan (prif hyb gwybodaeth)
- E-bost (cyfathrebu mewn segmentau)
- Cyfryngau cymdeithasol (ymgysylltu ac ehangu)

Sianelau ymgysylltu

- Cynadleddau Estyn a digwyddiadau cenedlaethol, a chynrychiolaeth mewn cynadleddau allanol.
- Digwyddiadau Estyn yn fyw a gweithdai
- Fforymau partneriaid rheolaidd sy'n benodol i sector, a gynhelir o leiaf unwaith y flwyddyn.

Ymagwedd o ran cynnwys

- Crynodebau ac esbonwyr clir
- Fformatau gweledol a hygyrch
- Cynnwys ymarferol "beth mae hyn yn ei olygu i chi"

9. Mesur a Gwerthuso

Byddwn yn mesur llwyddiant trwy:

Estyniad

- Traffig y wefan ac ymgysylltu
- Metrigau cyfryngau cymdeithasol

Ansawdd ymgysylltu

- Ein harolwg canfyddiadau blynyddol
- Boddhad partneriaid (adborth anecdotaidd ac arolygon targedig)

Effaith

- Dealltwriaeth gynyddol o'n gwaith
- Ymddiriedaeth a hyder gwell
- Tystiolaeth o newidiadau mewn arfer

10. Cynllun Cyflwyno (Blwyddyn 1: 2026/27)

Blaenoriaeth 1: Gwella dealltwriaeth o arolygu

- Adeiladu ar gynnwys esbonwyr
- Lansio cyfathrebu targedig ar gyfer arweinwyr canol

Blaenoriaeth 2: Cryfhau ymgysylltu â phartneriaid i yrru'r fframwaith arolygu nesaf

- Parhau i gydweithio yn ein grwpiau cyfeirio partneriaid
- Parhau i ddatblygu ein harolwg canfyddiadau blynyddol

Blaenoriaeth 3: Sefydlu ymagwedd ymgyrch

- Ymgyrch 1: Darllen: Dros ddysgwyr, dros Gymru
- Ymgyrch 2: Adnewyddu Barod yn Barod (Deall arolygu)
- Ymgyrch 3: Adolygiad canol cylch a datblygu fframwaith newydd

11. Llywodraethu

- Tîm cyfathrebu yn arwain y cyflwyno
- Alinio agos â thimau arolygu a thimau Gwasanaethau Canolog
- Goruchwyliaeth gan uwch arweinwyr
- Adolygu ac adnewyddu blynyddol

Atodiad 1: Dadansoddiad o ran partneriaid allanol

At ei gilydd, mae'r dadansoddiad hwn yn grwpio partneriaid sy'n rhannu buddiant tebyg mewn addysg a/neu hyfforddiant. Mae hyn yn ein helpu i dargedu a blaenoriaethu ein negeseuon.

Buddiant	**Math o bartner (ychydig o enghreifftiau)**
Cânt eu dylanwadu'n uniongyrchol gan ein gwaith	Penaethiaid, prifathrawon, cyfarwyddwyr addysg, athrawon, darlithwyr, staff cymorth, ymarferwyr, cyrff llywodraethol a llywodraethwyr / ymddiriedolwyr ysgolion, rheolwyr ac arweinwyr gwaith ieuenctid, darparwyr a rheolwyr dysgu yn y gwaith
Maent yn elwa'n uniongyrchol ar ein gwaith	Ysgolion a lleoliadau nas cynhelir, darparwyr ôl-16, darparwyr dysgu yn y gwaith, awdurdodau lleol, partneriaid gwella ysgolion, darparwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA), gwasanaethau addysg mewn carchardai, dysgu oedolion, Llywodraeth Cymru, Medr, Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)
Maent yn elwa'n anuniongyrchol ar ein gwaith	Dysgwyr, rhieni / gofalwyr, y cyhoedd, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) a Cymwysterau Cymru, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW), Comisiynydd

	Plant Cymru
Maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at ein gwaith	Gweithlu arolygwyr mewnol ac allanol, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Prawf EF, Arolygiaeth Cwnstabliaeth EF, Arolygiaeth Carchardai EF, Llywodraeth Cymru, Medr
Maent yn cyfrannu'n anuniongyrchol at ein gwaith	Y Gynhadledd Ryngwladol Sefydlog i Arolygiaethau (SICI), Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Education Scotland, The Education and Training Inspectorate (Northern Ireland) ac Ofsted, Cwlwm
Mae ganddynt fuddiant yn ein gwaith ond nid ydynt yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol	Y cyfryngau, sylwebwyr addysg, cwmnïau ymchwil, ymgynghorwyr addysg a chyrff academaidd

Atodiad 2: Grwpiau partneriaid

Rydym yn adolygu'r sefydliadau a'r bobl yr ydym yn ymgysylltu â nhw yn rheolaidd.
Mae fforymau partner sy'n cyfarfod yn dymhorol ym mhob un o'r sectorau rydym yn eu harolygu.
Yn ogystal â hyn, rydym yn ymgysylltu â'r grwpiau cynulleidfaoedd canlynol:

Unigolion:

- Penaethiaid
- Prifathrawon
- Uwch arweinwyr
- Ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir
- Athrawon newydd gymhwyso
- Dysgwyr (pob oed)
- Darlithwyr
- Athrawon
- Cynorthwywyr ystafell ddosbarth
- Arolygwyr – cymheiriaid, ychwanegol, partneriaid gwella ysgolion, lleyg, ACof, ACofM
- Rhieni a gofalwyr
- Llywodraethwyr

Darparwyr:

- Ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- Ysgolion cynradd
- Ysgolion uwchradd
- Ysgolion pob oed

- Ysgolion arbennig
- Unedau cyfeirio disgyblion
- Ysgolion annibynnol
- Addysg bellach
- Colegau arbenigol annibynnol
- Dysgu oedolion yn y gymuned
- Gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- Addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- Prentisiaethau
- Dysgu yn y sector cyfiawnder
- Trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- Gwasanaethau Gwaith Ieuenctid

Sefydliadau

- Atebol
- Gweithredu dros Blant
- Rhwydwaith partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- Agored Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW)
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)
- Ysgrifenyddion Cabinet sydd â chyfrifoldebau am addysg
- Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Gyrfa Cymru
- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
- Plant yng Nghymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
- Cyngor Ymgynghorol ar gyfer Addysg Yr Eglwys yng Nghymru
- Cyfarwyddwyr Addysg Yr Eglwys yng Nghymru a'r Esgobaeth Gatholig yng Nghymru
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Colegau Cymru
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
- Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)
- CYDAG
- Cwlwm
- Dysgu
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)
- Cymdeithas y Saesneg fel Iaith Ychwanegol yng Nghymru (EALAW)
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)
- Ffederasiwn Busnesau Bach

- Y Cyngor Astudiaethau Maes
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Girlguiding Cymru
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Arolygiaeth Carchardai EF
- Arolygiaeth Prawf EF
- Y Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Cymdeithas Ddysgedig Cymru
- Awdurdodau lleol
- Medr
- Mudiad Meithrin
- Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Abl mewn Addysg
- Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
- Cymdeithas Genedlaethol y Penaethiaid (NAHT)
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW)
- Yr Undeb Addysg Cenedlaethol
- NUS Cymru
- Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig Gogledd Cymru
- Prif Swyddogion Ieuenctid (PYO)
- Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY)
- Prospect
- Parentkind
- Cymwysterau Cymru
- Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol
- Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG)
- Partneriaid Gwella Ysgolion
- Scouts Cymru
- Ymchwil y Senedd
- Cyngor Sgiliau Sector
- SNAP Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE Cymru)
- Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig De Cymru
- Y Gynhadledd Ryngwladol Sefydlog o Arolygiaethau
- Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA)
- Arolygiaethau Gweinyddiaeth Gyfiawnder y DU
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysg Athrawon (UCET)
- Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU)
- Urdd Gobaith Cymru

- Voice Cymru
- Archwilio Cymru
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
- Cymdeithas Ysgolion Cynradd Cymru
- Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru (WISC)
- Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (Wiserd)
- Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc (YMCA)
- Young Women's Trust
- Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid